Papur Bwrdd

7fed Mai 2015

Teitl y Papur:	Achos Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Cynnydd
Cyfeirnod y Papur:	CNC B B 31.15
Noddir y Papur Gan: **Awdur y Papur:**	Niall Reynolds Richard Ninnes

Pwrpas y Papur:	Diweddaru'r Bwrdd ar y cynnydd gyda'r achos busnes a gweld y manteision.
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad ar y cynnydd gyda darparu manteision.
Angen Penderfyniad:	Dim.

Effaith: **ar yr Amgylchedd:** **ar yr Economi:** **ar y Gymuned:** **ar Wybodaeth:**	Mae gwaith y tîm Pontio ac eraill wedi arwain at roi gallu annibynnol i NRW a chychwyn y broses o wireddu'r manteision sy'n cael eu rhagweld yn yr achos busnes. Y manteision yw gwerth gwell am arian, darparu gwell i Gymru a chyflawni canlyniadau gwell ar gyfer amgylchedd, pobl a busnesau Cymru.

1. Pwrpas y papur hwn

1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed gyda darparu manteision Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein dwy flynedd gyntaf. Bydd yn canolbwyntio ar y prif uchafbwyntiau a thrwy wneud hynny'n cyfrannu deunydd i gefnogi sesiwn graffu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ym mis Mai.

2. Mae'r papur hwn yn rhagolwg ar adroddiad llawnach fydd yn disgrifio'r cyfnod pontio dwy flynedd ac yn nodi'r llwyddiannau, profiadau a'r gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd. Bydd yr adroddiad llawn yn cefnogi ein cyfraniad at astudiaeth gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru ac yn helpu i gyfathrebu â chynulleidfaoedd ehangach ar ddarparu NRW fel corff annibynnol.

2. Y cyd-destun

3. Mae creu Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithredu'r Achos Busnes yn elfen ganolog o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Mae Achos Busnes Llywodraeth Cymru'n cyflwyno tri nod buddsoddi cyffredinol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru: darparu gwell i Gymru; canlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd, pobl a busnesau; a gwerth am arian. Y nod cyffredinol oedd symud yn y dyfodol at system sy'n symleiddio a chydgysylltu ein dull o warchod a rheoli adnoddau naturiol.

4. Roedd yr Achos Busnes yn amcangyfrif budd economaidd o £158m dros ein 10 mlynedd gyntaf ynghyd â chostau galluogi a gweithredu o £69m. Roedd yn amcangyfrif y byddai tua 60% o'r budd hwn yn dod o ddibynnu llai ar y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddai'r gweddill yn dod yn bennaf o ad-drefnu gweithgareddau corfforaethol cyffredin a chreu systemau a phrosesau mwy effeithlon. Yn ôl yr Achos Busnes, roedd y rhan fwyaf i'w gwireddu fel arian parod (£127m), ond gallai cyfran ddod o welliannau cynhyrchedd heblaw arian parod (£31m).

5. Yn Ebrill 2013 cytunodd Lywodraeth Cymru ar broffil o arbedion blynyddol arian parod a heblaw arian parod, ar sail yr Achos Busnes, ond wedi'i ddiwygio er mwyn gwahanu'n gynt oddi wrth yr hen systemau blaenorol. Dengys Tabl 1 y ffigurau 'achos busnes diwygiedig' hyn.

Tabl 1 – Achos Busnes Diwygiedig – Arbedion blynyddol arian parod a heblaw arian parod

£,000,000	**13/14**	**14/15**	**15/16**	**16/17**	**17/18**	**18/19**	**19/20**	**20/21**	**21/22**	**22/23**	**Cyfanswm 10 mlynedd**
Arbedion arian parod	-2.7	7.7	13.0	13.9	14.7	15.6	16.1	16.1	16.1	16.8	127.1
Arbedion heblaw arian parod	1.8	2.8	2.9	2.7	3.4	3.4	3.4	3.4	3.4	3.4	30.9
Cyfunol	-0.9	10.5	15.9	16.6	18.2	19.0	19.5	19.5	19.5	20.2	158.0

3. Creu’r sylfeini – Rhaglen Newid

6. Crëwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Raglen Cymru Fyw Llywodraeth Cymru gan ddechrau’r broses o bontio o’r hen gyrff blaenorol, ond roedden ni’n parhau i fod yn ddibynnol iawn ar yr hen systemau, gweithdrefnau, dulliau, telerau ac amodau. Gwariodd y Rhaglen Cymru Fyw £12.4m o’r costau galluogi a gweithredu.

7. Wedi cyrraedd diwedd y ddwy flynedd gyntaf, mae ein Rhaglen Newid wedi cwblhau’r cyfnod pontio. Mae wedi rhoi gallu annibynnol i ni, wedi uno ein seilwaith sefydliadol ac wedi dechrau datblygu’r dulliau newydd fydd yn rhoi canlyniadau gwell. Mae’r Rhaglen Newid wedi gosod sylfaen ar gyfer ein sefydliad gan wneud hynny mewn ffyrdd sydd eisoes wedi sicrhau’r rhan fwyaf o’r arbedion blynyddol angenrheidiol. Mae’r tîm pontio wedi arwain a chydgysylltu gwaith 24 o raglenni gyda thros 117 o brosiectau er mwyn gwahanu ein systemau oddi wrth y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi creu gallu annibynnol, uno telerau ac amodau, integreiddio â strwythurau newydd a dechrau datblygu dulliau newydd o reoli adnoddau naturiol. Mae’r Rhaglen Newid wedi gwario £34.2 arall o’r costau galluogi a gweithredu ar gostau rhaglenni a VES.

Gallu annibynnol:

8. Nod yr elfen hon o’n gwaith oedd dibynnu llai ar yr hen gyrff blaenorol a chreu sefydliad annibynnol oedd yn rheol ei systemau, prosesau a’i seilwaith ei hun.

9. Rydym wedi ymadael â 29 o’r 40 gwasanaeth pontio a etifeddwyd gan FCGB ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gyda’r gweddill i ddod i ben o fewn dwy flynedd, y rhan fwyaf erbyn Mawrth 2016. Rydym wedi lleihau’r taliadau blynyddol i’r EA a FCGB am wasanaethau, o ffigur sylfaen o £21m i lawr i £8.5m yn 2015/16 ac rydym ar darged i’w lleihau i £5.5m erbyn 2016/17.

10. Yn unol â’n strategaeth TGCh, rydym wedi sefydlu gwasanaethau TGCh diwastraff ar sail gwasanaethau *Cloud* Microsoft. Rydym wedi llwyddo i ad-drefnu nifer enfawr o hen raglenni a phrosesau busnes, 1600 i gyd, yn gyfres symlach, fwy ffit i’r pwrpas a chost-effeithiol o 400 o raglenni. Bydd y nifer hwn yn cael ei leihau ymhellach wrth i ni barhau i drawsnewid ein gallu TGCh.

11. Rydym wedi sefydlu ein Canolfan Gofal Cwsmer, wedi creu ein Gwasanaethau Dadansoddi ein hunain yn Llanelli ac wedi ychwanegu at ein harbenigedd technegol yn lle dibynnu ar arbenigedd o Loegr a’r Alban.

12. Mae ein gwefan newydd a’r Ganolfan Gofal Cwsmer yn rhoi pwyntiau cyswllt clir i’n cwsmeriaid a nifer gynyddol o wasanaethau ar-lein, er enghraifft ar gyfer cofrestru esemptiadau gwastraff a dŵr, cofrestru gwastraff peryglus a thrwyddedu cludwyr a brocerwyr gwastraff.

13. Rydym wedi creu system *Cloud* ar gyfer rheoli data a chofnodion (DMS) a mewnrwyd newydd ar gyfer cyhoeddi a chyfathrebu mewnol.

Un sefydliad:

14. Mewn partneriaeth â'r undebau, rydym wedi uno telerau ac amodau mewn pecyn gwobrwyo newydd i staff. Rydym wedi ailstrwythuro i integreiddio ein swyddogaethau, wedi creu timau seiliedig ar leoliad ac wedi cwblhau'r broses o greu timau gwasanaethau corfforaethol unigol.

15. Rhoddwyd hwb i'n proses integreiddio pan roddwyd ein staff i gyd ar rwydwaith TGCh NRW cyffredin ar ddiwedd 2015. Roedd hyn hefyd yn golygu ein bod yn gallu gweithredu un cynllun ffeiliau ar gyfer y corff cyfan fydd yn integreiddio arferion gweithio ymhellach.

16. Roedd ein system Cynllunio Adnoddau Menter (MyNRW) newydd hefyd yn gam mawr ymlaen yn y broses o gyfuno gwybodaeth allweddol am gyllid sefydliadol ac adnoddau dynol mewn un lle er mwyn gallu gwella gwybodaeth reoli. Hon hefyd yw'r system gyntaf i ddod â'r sefydliad cyfan at ei gilydd gan helpu i ddatblygu dull cyffredin o reoli cyllidebau ac adnoddau eraill.

17. Rydym wedi gwneud cynnydd da gydag ad-drefnu ein swyddfeydd a'n depos gyda rhaglen o fanteision buan sydd wedi lleihau ein costau blynyddol a helpu i ddod â staff at ei gilydd.

Dulliau newydd:

18. Rydym wedi dechrau datblygu dull newydd o reoli adnoddau naturiol, gan gynnwys tair ardal brawf i helpu i oleuo Bil yr Amgylchedd. Byddwn yn parhau i wreiddio Rheoli Adnoddau Naturiol o fewn ein ffyrdd o weithio fel rhan o'n portffolio trawsnewid.

19. Mae gennym eisoes brosesau a ailwampiwyd sy'n defnyddio dulliau newydd, diwastraff a mwy effeithlon. Er enghraifft, mae casglu a dadansoddi samplau dŵr bellach wedi'i gyfuno'n un system (Starlims) yn lle pump a dechreuwyd defnyddio dyfeisiau symudol yn y maes. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys trwyddedau trydan dŵr a'n gwasanaeth cyngor ar gynllunio. Bydd technegau gwella parhaus yn adnodd allweddol i ddarparu'r rhaglen trawsnewid adolygu gwasanaethau effeithiol.

20. Drwy ein system GIS *Cloud* arloesol, mae data a gwybodaeth oedd o'r blaen ar wahân wedi'i gyfuno mewn un lle a bydd hyn yn adnodd hollbwysig ar gyfer rheoli a dadansoddi'r wybodaeth ofodol sydd ei hangen arnom er mwyn integreiddio a rheoli adnoddau naturiol.

4. Manteision: Cynnydd yr Achos Busnes

21. Yn ogystal â chyflwyno'r newidiadau sy'n ofynnol i ddarparu sefydliad annibynnol, rydym wedi sefydlu fframwaith cadarn i dracio'r broses o wireddu manteision. Mae ein Cynllun Gwireddu Manteision yn nodi'r strategaeth ar gyfer cyflawni manteision yr Achos Busnes a fframwaith ar gyfer cynllunio a monitro cynnydd. Mae ein Cerdyn Sgorio Manteision yn tracio dangosyddion llwyddiant ac mae'r Gofrestr Manteision yn nodi'r manteision sydd mewn golwg a thystiolaeth o'u cyflawni.

22. Mae gennym 65 o fanteision ar y gofrestr, sy'n amrywio o ymyriadau rhaglen mawr i enghreifftiau lleol o sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydgysylltu i ddarparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid a chanlyniadau nad oedd yn bosibl o'r blaen. Mae'r adrannau isod yn disgrifio rhai o uchafbwyntiau'r manteision allweddol a sut y maen

nhw'n llwyddo i gyflawni nodau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

Canlyniadau gwell

23. Er ein bod eto i ddatgloi potensial llawn Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'r newid amgylcheddol yn araf deg, mae gennym eisoes amryw o enghreifftiau o ganlyniadau gwell i gwsmeriaid a busnesau lle bydd dulliau newydd yn rhoi canlyniadau amgylcheddol gwell.

24. Mae ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes wedi disodli wyth o gynlluniau ar wahân gan gysoni'r gwaith yn un gyfres o flaenoriaethau integredig ar gyfer yr amgylchedd, pobl a busnesau. Rydym wedi ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid i ddeall eu blaenoriaethau a helpu i lunio ein cynlluniau ar flaenoriaethau i Gymru.

25. Rydym yn cynghori ag un llais bellach ac mae cwsmeriaid a reoleiddir gennym yn elwa o ddull mwy cydgysylltiedig o asesu a phenderfynu ceisiadau trwyddedu. Mae cael un llais yn ein helpu i weithio gyda rhanddeiliaid lle, o'r blaen, roedd ein diddordeb wedi'i rannu rhwng y gwahanol gyrff blaenorol, er enghraifft yn Niwbwrch lle mae gennym Warchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer twyni a rheoli coedwigaeth.

26. Mae'r Ganolfan Gofal Cwsmer yn rhoi un pwynt cyswllt ar gyfer materion adnoddau naturiol yng Nghymru ac yn canolbwyntio'n llwyr ar faterion sy'n bwysig i gwsmeriaid yng Nghymru. Mae cwsmeriaid hefyd yn elwa o drosglwyddo gwasanaethau i Gymru, er enghraifft ein perthynas well gyda rheolwyr cronfeydd dŵr.

27. Mae ein gwasanaethau cofrestru ar-lein mwy modern yn gweithio'n well i gwsmeriaid ac, yn achos cofrestru gwastraff, yn dangos tueddiadau i ni sy'n ein helpu i dargedu ymyriadau er mwyn osgoi effeithio ar yr amgylchedd.

28. Mae creu NRW a chronni ein harbenigedd a'n cylch gwaith wedi golygu y bu'n bosibl ystyried rheoli adnoddau naturiol yn integredig mewn tair ardal brawf sef Dyfi, Tawe a'r Rhondda. Mae hefyd wedi arwain at roi ymatebion symlach a mwy effeithiol i gynigion datblygu, er enghraifft y tir halogedig yr oedd Surf Snowdonia angen rhoi sylw iddo fel rhan o'i ddatblygiad yn Nolgarrog. Mae hefyd yn helpu gydag agweddau rheoli amgylchedd ar ein gwaith ein hunain, er enghraifft mae'r timau cynaeafu bellach yn gweithio'n llawer agosach â'n harbenigwyr dŵr a rhywogaethau gwarchodedig i gytuno'n gynt ar ragofalon ac i osgoi'r oedi i gontractau cynaeafu oedd unwaith yn gyffredin.

29. Rydym wedi cynyddu gwydnwch ein hymateb i lifogydd am ddim cost ychwanegol drwy hyfforddi staff ychwanegol mewn swyddi blaenorol gyda'r FC a'r CCW i ymuno â rotas dyletswydd gyda staff yr EA. O'r herwydd rydym wedi gallu ymdopi â rhai o'r stormydd gwaethaf o fewn cof yn ystod gaeaf 2013/14.

30. Rydym wedi gallu ymateb yn effeithiol i'r clefyd difrodus sy'n effeithio ar goed llarwydd o ganlyniad i integreiddio sgiliau rheoli coedwigaeth â gallu dau o'r hen gyrff blaenorol i ymateb i ddigwyddiadau.

Darparu gwell i Gymru

31. Drwy fod yn un corff ar gyfer Cymru mae ffocws ein cynlluniau a'n blaenoriaethau bellach ar Gymru.

32. Rydym wedi mabwysiadu dulliau gwahanol gyda phethau fel trwyddedu trydan dŵr sy'n rhoi sylw i flaenoriaethau ac amgylchiadau Cymru. Mae'r dull symlach a mwy cyson gyda thrydan dŵr yn rhoi eglurder gwell i ddatblygwyr, yn ein helpu i gytuno'n gynt ar drwyddedau ac yn ei gwneud yn haws i ni leihau unrhyw risg o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd.

33. Mae sefydlu gwasanaethau TGCh NRW, gwasanaethau dadansoddi a'r ganolfan gofal cwsmer wedi creu a diogelu 58 o swyddi uchel a chreu naw prentisiaeth yng Nghymru. Mae cryfhau ein harbenigedd technegol wedi denu o leiaf 16 o swyddi uchel i Gymru.

34. Roedd yr adolygiad trwyddedu o dan y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ar gyfer y gwaith dur integredig ym Mhort Talbot yn enghraifft o fanteision NRW wrth ddarparu prosiectau cymhleth, o'i gymharu â'r hen gyrff blaenorol. Roedd NRW wedi gallu rhoi cyngor ac arweiniad yn gynt, wedi hoelio sylw Tata ar wneud gwelliannau amgylcheddol ac wedi gadael i Tata optimeiddio'r buddsoddiad i sicrhau'r budd amgylcheddol mwyaf. Mae cael tîm prosiectau integredig yn ei le wedi rhoi sicrwydd i Tata yn eu buddsoddiad drwy allu adnabod prosiectau'n fuan, sicrhau buddsoddiad sicr a thrwy hynny ennill budd i economi Cymru.

Gwerth gwell am arian

35. Ers y diwrnod breinio ar 1 Ebrill 2013 rydym wedi creu arbedion gwerth £10.9m y flwyddyn o'i gymharu â'r ffigur sylfaen. Amcangyfrifwn y bydd newidiadau eraill oedd ar y gweill ar 31 Gorffennaf 2014 yn cynyddu'r arbedion blynyddol net i tua £19m y flwyddyn erbyn 2018/19.

36. Yn gyffredinol, rhagwelwn y bydd cyfanswm yr arbedion arian parod a wnaed eisoes, neu sydd ar y gweill, yn cyflawni'r targed Achos Busnes o £127m dros y 10 mlynedd hyd at 2022/23. Dyma rai o'r pethau a gyfrannodd fwyaf at y targed arian parod hwn:

- Lleihau taliadau gwasanaeth i'r EA a'r FCGB, heblaw rhai TGCh, o £11m y flwyddyn.
- Darparu ein gwasanaethau TGCh annibynnol am £6m y flwyddyn yn lle'r ffigur sylfaen o £8m.
- Mae ad-drefnu swyddfeydd eisoes wedi arbed £0.3m y flwyddyn.
- Mae'r system Cynllunio Adnoddau Menter newydd yn costio £1.9m yn llai i'w rhedeg bob blwyddyn.

37. Er ei bod yn ddyddiau cynnar i weld gwelliannau cynhyrchedd mawr, rhagwelwn y bydd yr effeithlonrwydd a wnaed eisoes yn cronni i roi tua £16m o fanteision heblaw arian parod dros y 10 mlynedd gyntaf hyd at 2022/23. Er enghraifft, llwyddodd brosiect gwella prosesau LEAN ar ein gwaith casglu samplau i arbed o leiaf £0.3m y flwyddyn drwy wella cynhyrchedd ac i arbed dros 200,000 o filltiroedd car bob blwyddyn.

38. Bydd y rhaglen Drawsnewid yn gwella cynhyrchedd mewn sawl rhan arall o'r busnes dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o'r Rhaglen Gwella Effeithlonrwydd a Darparu Gwasanaeth. Mae'r cyfleoedd sydd eisoes wedi'u nodi'n rhoi hyder ein bod mewn

sefyllfa dda i gyflawni'r targed Achos Busnes o £31m mewn manteision heblaw arian parod.

39. Dengys y graff isod y cynnydd gydag ennill y manteision arian parod a heblaw arian parod yn erbyn y proffil yn yr achos busnes diwygiedig (Tabl 1). Mae'r llinellau toredig yn dangos rhagolygon ar sail arbedion a wnaed eisoes ac arbedion i ddod o newidiadau eraill sydd ar y gweill. Mae proffil y llinell las doredig yn dangos sut y disgwylir cyflawni'r manteision arian parod. Mae ar ei hôl hi gyda'r proffil yn y blynyddoedd cynnar ond rhagwelwn y bydd yn cyrraedd y targed. Dengys y llinell werdd doredig sut yr ydym eisoes wedi ennill hanner y manteision heblaw arian parod dros y cyfnod pontio a chyn i ni symud i'r cyfnod trawsnewid.



40. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n cyflawni adolygiad manwl o elfennau Gwerth am Arian yr achos busnes ac yn asesu'r cynnydd gydag ennill y manteision a nodir ynddo. Rydym mewn sefyllfa dda i ddangos cynnydd a chyflawni da yn erbyn targedau'r achos busnes.

5. Trawsnewid a'n Map Ffordd

41. Er gwaethaf llwyddiannau'r ddwy flynedd gyntaf, mae cyflymdra'r newid wedi bod yn ddi-baid ac mewn rhai achosion mae'r siwrne wedi bod yn anghyffyrddus i staff. Roedd hyn yn glir o ymatebion y staff fel rhan o'n harolwg staff diweddar.

42. Rydym yn awr yn cychwyn ar gyfnod newid yr un mor uchelgeisiol i geisio sefydlu NRW fel sefydliad o safon fyd-eang am Reoli Adnoddau Naturiol er lles pobl, busnesau a'r amgylchedd yng Nghymru.

43. Rydym wedi cychwyn y siwrne gyda'n Map Ffordd a bellach yn sefydlu'r fframwaith ffurfiol fydd yn ein helpu i ddarparu popeth sydd ei angen i weld NRW yn dod yn sefydliad sy'n perfformio gyda'r goreuon.

44. Mae’n greiddiol bod y Map Ffordd newydd yn gallu arwain at ddarparu mwy pwyllog ac mae bellach yn bwysicach nag erioed o’r blaen bod staff yn cymryd rhan yn y broses drawsnewid er mwyn bod yn rhan o ddatblygiad parhaus NRW ac yn datblygu’r diwylliant a'r ffyrdd newydd o weithio.

45. Rydym wrthi’n datblygu’r prosiectau a’r rhaglenni manwl fydd yn dod o dan y portffolio trawsnewid a bydd y cynnydd gyda chyflawni’r portffolio’n cael ei adrodd i’r Bwrdd maes o law.